# Cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) |
| **Lleoliad:** | Swyddfa Llywodraeth Cymru, Aberystwyth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 9 Medi 2024 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Yr Athro Rhys A. Jones (Cadeirydd), Aelod o Fwrdd CNC<br>Ruth Jenkins, CNC<br>Huwel Manley, CNC<br>Sarah Hetherington, CNC<br>Dr Rosie Plummer, Aelod o Fwrdd CNC<br>Elan Evans, UAC<br>Sarah James, CLA<br>Tim Kirk, Confor<br>Elaine Harrison, Confor<br>Hedd Pugh, NFU Cymru<br>Dennis Matheson, TFA<br>Angharad Davies, CFfI Cymru |
| **Mynychwyr eraill:** | John Clark, CNC<br>Keith Davies CNC |
| **Ymddiheuriadau:** | Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Gareth Parry, UAC<br>Fraser McAuley, CLA<br>Jon Goldsworthy, CNC<br>John Browne, CNC<br>Michelle Griffiths, CNC |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

1. Croesawodd yr Athro Rhys Jones (Cadeirydd WLMF) bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau. Diolchodd Rhys i'r grŵp am deithio i Aberystwyth ar gyfer y cyfarfod hwn a rhoddodd rai hysbysiadau ymarferol cyffredinol.

2. Aeth y grŵp o gwmpas y bwrdd gan ddarparu cyflwyniadau llafar.

3. Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag eitemau agenda.

4. Soniodd Rhys fod gan y cyfarfod hwn thema 'natur' eang. Mae cyflwyniadau sylweddol ar 'Natur am Byth' a'r Rhaglen Tirweddau Dynodedig, ynghyd â thrafodaeth dan arweiniad grŵp ar ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i 'Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030'.

## Eitem 2. Cofnodion, camau gweithredu a materion sy’n codi o’r cyfarfod diwethaf.

5. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi’u hadolygu a’u cytuno’n ffurfiol gan yr aelodau, byddant yn cael eu cyfieithu a’u cyhoeddi ar wefan CNC. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2024 a’u derbyn fel cofnod cywir.

6. Bu’r grŵp yn adolygu’r camau gweithredu sydd heb eu cyflawni a rhoddwyd diweddariadau llafar lle bo’n bosibl.

- Pwynt Gweithredu 11 Medi - Fraser McAuley, CLA i ddosbarthu copi o adroddiad ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol pan gaiff ei gyhoeddi.

- Dywedodd Sarah James, CLA y byddai'n mynd ar drywydd hyn pe bai Bronwen yn anfon copi o'r weithred a'r cyd-destun ati.

- Pwynt Gweithredu 01 Mehefin - Michelle Griffiths i egluro'r sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran plannu coed ger afonydd ac adrodd yn ôl i Fforwm Rheoli Tir Cymru.

- Codwyd hyn gan Robert South, Confor - mae angen mwy o eglurder ar hyn. Efallai y gall Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ym mis Rhagfyr. Soniodd Tim Kirk, Confor am effaith glaw asid a budd coed wrth ymyl afonydd (e.e., oeri tymheredd yr afon). Trafododd y grŵp y cyd-destun ehangach gan gynnwys plannu wrth ymyl prif afonydd, caniatâd draenio tir, amddiffynfeydd llifogydd, trwyddedau gweithgaredd perygl llifogydd, y gwahaniaethau rhwng deddfwriaeth ar gyfer Cymru a Lloegr a phwysigrwydd y goeden gywir yn y lle iawn.

- Pwynt Gweithredu 02 Mehefin - Robert South, Confor i ddarparu rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau penodol ynghylch materion a wynebir wrth geisio plannu coed wrth ymyl cyrsiau dŵr.

- Nid oedd Bronwen wedi derbyn unrhyw fewnbwn pellach gan Robert a chytunodd i gysylltu ag Elaine Harrison, Confor i ddeall a oedd unrhyw beth i fwydo i mewn i'r drafodaeth yn y dyfodol.

## Eitem 3. Cyflwyniad: Natur am Byth

7. Croesawodd y grŵp John Clark, CNC i roi trosolwg a diweddariad ynghylch Natur am Byth. Cyflwynodd John ei hun fel Rheolwr Rhaglen ar gyfer Natur am Byth - Achub rhywogaethau dan fygythiad yng Nghymru.

8. Mae hon yn bartneriaeth sy'n cynnwys 10 partner a CNC yw'r cydlynydd. Ar hyn o bryd mae blwyddyn wedi mynd heibio yn y prosiect pedair blynedd, ond mae wedi cymryd nifer o flynyddoedd o ddatblygiad i gyrraedd y pwynt hwn. Mae arian y prosiect yn cael ei ddarparu gan y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru a CNC.

9. Mae'r prosiect yn cwmpasu sawl rhaglen adfer rhywogaethau yn y DU, sy'n ceisio achub rhywogaethau rhag difodiant ac ailgysylltu pobl â natur. Crynhodd John y 'Cyfnod Cyflawni' gan gynnwys y costau a'r ffynonellau incwm. Darparwyd amlinelliad

o'r llinell amser allweddol hefyd, gan gynnwys y cyfnod cyn ymgeisio, y cam cyflwyno a chyfnod datblygu 18 mis.

10. Gweledigaeth Natur am Byth – pobl a bywyd gwyllt yn ffynnu, pobl o bob cefndir i fwynhau a gofalu am natur, cymunedau yn cydweithio a sefydliadau i fod yn sail.

11. Amlinellodd John bensaernïaeth y rhaglen gan gynnwys:
    - 4 prif agwedd
    - Prosiectau sy'n seiliedig ar leoedd
    - Pecynnau gwaith a gydlynir yn genedlaethol

12. Hyd yn hyn, mae Natur am Byth wedi:
    - Cynnal / mynychu >1000 o ddigwyddiadau.
    - Ymgysylltu â dros 16,000 o bobl.
    - Nodi 67 o rywogaethau sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf o ddifodiant yng Nghymru er mwyn cymryd camau i'w gwarchod.
    - Sefydlu 11 o brosiectau partneriaeth.
    - Amlygu 146 o safleoedd ar gyfer rheoli neu arolygu.

13. Rhoddodd John drosolwg o gyllideb y prosiect gan gynnwys cyfalaf, refeniw, agweddau anariannol (e.e., gwirfoddolwyr, amser ac ati), chwyddiant ac arian wrth gefn.

14. Mae 5 prosiect aml-dacson, pob un â heriau tebyg ac mae 6 prosiect rhywogaethau penodol. Dangosodd John fap i nodi lledaeniad daearyddol prosiectau ledled Cymru a rhoddodd grynodeb o rai prosiectau.

15. Siaradodd John â'r grŵp am yr Asesiad Adfer Rhywogaethau a oedd yn cynnwys edrych ar y llinell sylfaen ac yna edrych ar ble rydym yn gobeithio bod trwy resymu a chyfiawnhad (e.e. dadansoddi data a modelu).

16. Mae'r prosiect wedi cynnwys edrych ar sgiliau staff a gwirfoddolwyr ac mae wedi darparu hyfforddiant. Mae'n allweddol bod Natur am Byth yn cyfathrebu â'r cyhoedd, yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd, yn cynnwys gweithgareddau gwirfoddol ac yn rhoi gwerth ar ddiwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg. Siaradodd John am bwysigrwydd hanes a chelfyddyd Cymru a'r iaith Gymraeg.

17. Mae amlinelliad o rai o agweddau'r prosiect yn cynnwys:

    - Pori er cadwraeth – wedi'i ymgorffori mewn sawl prosiect.
    - Cynlluniau pori er cadwraeth – datblygu astudiaeth o ddichonoldeb pori.
    - Tir comin – deall y materion a'r heriau a chreu cyfleoedd megis mynediad i'r cyhoedd, cŵn, digwyddiadau dysgu rhwng cymheiriaid a gwasanaethau cynghori a chymorth.
    - Datganiadau Natur am Byth ar gyfer tirfeddianwyr / rheolwyr tir (rhwng cyrff anllywodraethol a thirfeddianwyr)
    - Cytundebau Rheoli Tir â Chyrff Anllywodraethol, yn Benodol i Natur am Byth (taliadau arian parod)
    - Cytundebau Rheoli Tir â Chyrff Anllywodraethol, nad ydynt yn ymwneud â Natur am Byth (cytundebau gwirfoddol)
    - Cytundebau Rheoli Tir CNC – ar gyfer safleoedd gwarchodedig a ariennir gan Gymorth Grant CNC.

18. Amlygodd John rai o'r llwyddiannau rheoli tir, gan gynnwys:

- Ailgyflwyno tormaen Iwerddon ar ôl 62 mlynedd
- Gosod ffensys gan ddefnyddio hofrennydd
- Hyfforddi arweinwyr mynydd
- Defnyddio coleri pori heb ffensys (gwarchod gloÿnnod byw)
- Rhoi geifr i bori heb ffensys – GNG Stanner Rocks (afal-fwsogl unionsyth)
- Hyfforddi gwirfoddolwyr ar gyfer monitro
- Inocwleiddio â ffwng ysgwydd y derw
- Gwaith gwirfoddol
- Rhyddhau wystrys brodorol
- Mesurau rheoli stoc arfordirol ym Mhen Llŷn
- Arolygon bridio gylfinir ar gyfer 2024 – Ynys Môn

19. Amlinellodd John gynlluniau wrth symud ymlaen, gan gynnwys annog treialon arloesol trwy gytundebau a arweinir gan gyrff anllywodraethol.

20. Holodd Huwel Manley am yr effaith gadarnhaol ar gymunedau fel mewnbwn lleol, defnyddio contractwyr, effaith ar economïau lleol a defnyddio contractwyr fferm medrus ar gyfer rheoli. Dywedodd John eu bod wedi gweld effaith gadarnhaol ar economïau gwledig a'u bod wedi defnyddio amrywiaeth o gontractwyr fferm medrus.

21. Gofynnodd Tim am y dull macro / micro a darparodd enghraifft o ymgyrch Buglife sy'n hyrwyddo rhannu gwybodaeth leol. Dywedodd John bod angen i ni weithio ar sut y gallwn edrych ar y gofynion rheoli - mae rhannu data a gwybodaeth yn ffactor allweddol. Mae Swyddogion Lleol yn gweithio gyda pherchnogion a deiliaid tir gan mai nhw yw'r rhai sy'n adnabod y safleoedd hyn. Mae cynyddu’r raddfa hefyd yn ddiddorol, er enghraifft taflu goleuni ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, a gellir gwneud hyn trwy gyfathrebu ac ymgysylltu. Mae cynnal digwyddiadau dysgu yn ffordd o amlygu’r bobl hynny sy'n gwneud pethau gwych. Trafododd y grŵp rwystrau a gwersi a ddysgwyd (e.e., flynyddoedd yn ôl, câi ffermwyr eu hannog i beidio â phori'r bryniau ac mae'r arfer rheoli hwn bellach yn cael ei annog).

22. Soniodd Huwel am gydlynu â digwyddiadau Cyswllt Ffermio gan eu bod yn gyffredinol yn denu nifer o bobl. Mae angen i fusnesau fferm fod yn hyfyw ac mae ymgysylltu â ffermwyr ynglŷn â’r economeg yn bwysig. Mae llawer o faterion a heriau o ran cynhyrchu gwartheg fel TB, costau economaidd ac ati. Trafododd y grŵp yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer bridiau brodorol.

23. Soniodd Sarah James, CLA am Brosiect Adfer Porfeydd Rhos sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Nod y prosiect hwn yw adfer bioamrywiaeth a chodi gwerth diwylliannol porfeydd Rhos gyda thirfeddianwyr a chymunedau, fodd bynnag, mae rhwystrau sy’n ei atal rhag bod yn hyfyw yn ariannol i dirfeddianwyr. Cynigiodd Sarah helpu John i ymgysylltu ag aelodau CLA drwy gynnal digwyddiadau i hyrwyddo trosglwyddo gwybodaeth.

24. Cydnabu Angharad Evans, CFfI Cymru ei bod yn wych gweld pori er cadwraeth yn rhai o brosiectau Natur am Byth a thrafododd rai o'r materion y mae ffermwyr yn eu hwynebu, er enghraifft TB, lleihau buchesi sugno oherwydd hyfywedd, heriau'r gadwyn gyflenwi a'r pris i'r defnyddiwr yn ogystal ag effaith Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Trafododd y grŵp atebion posibl fel addysgu'r archfarchnadoedd a defnyddwyr.

25. Roedd Dennis yn cydnabod pwysigrwydd pori bryniau i reoli a chynnal cynefinoedd. Roedd Dennis yn cofio Digwyddiad Natur y Byd a oedd hefyd yn hyrwyddo pori fel offeryn rheoli ac awgrymodd fod tan-bori yn waeth na gorbori. Roedd mudiad PONT hefyd o blaid pori er cadwraeth ond yn anffodus daeth y sefydliad i ben yn gynharach eleni oherwydd y sefyllfa economaidd bresennol a diffyg cyllid hirdymor. Awgrymodd Dennis fod angen sgwrs gyda Llywodraeth Cymru a CNC am beidio â chymryd â thir amaethyddol allan o’r cwmpas cynhyrchu ar gyfer plannu coed - efallai bod angen trafodaethau pellach ynghylch targedau plannu coed. Dywedodd John mai pori er cadwraeth yw'r unig opsiwn ar gyfer rhai rhywogaethau a chynefinoedd ac mae wedi bod yn gweithio gydag ymgynghorydd sydd â gwybodaeth am PONT a'r gwaith maen nhw wedi ei wneud. Mae yna lawer o rwystrau ac mae hyfywedd ariannol yn allweddol. Atgoffodd Dennis y grŵp bod gan 30% o'r tir yng Nghymru denantiaid ac mae llawer o gytundebau tenantiaeth yn nodi bod 'rhaid iddynt wneud y defnydd mwyaf posibl o'r tir'. Soniodd Huwel fod rhai tenantiaethau yn rhai tymor byr iawn a byddai nifer y blynyddoedd o fewn y cytundeb yn effeithio ar arferion rheoli. Trafododd y grŵp gyfleoedd i grwpiau o ffermwyr gydweithio ar brosiectau.

26. Cododd Elaine Harrison, Confor her newid hinsawdd a gofynnodd sut y bydd hyn yn effeithio ar hyfywedd prosiectau (e.e., efallai na fydd hinsawdd y dyfodol yn cefnogi'r cynefin ac felly mae'r rhywogaethau dan fygythiad yn annhebygol o ffynnu). Dywedodd John ei fod yn her, ond nid dyma'r bygythiad mwyaf, yn gyffredinol mae angen i'r safleoedd fod mewn gwell cyflwr. Dyma un o'r pethau gafodd ei godi wrth ymgeisio am arian - mae'r cynefin yno ond mae angen iddo fod mewn gwell sefyllfa drwy reoli ac adfer.

27. Trafododd y grŵp yr heriau o ran dal a storio data gan gynnwys perchnogaeth, gwarchodaeth, materion ymddiriedaeth a pharodrwydd i rannu'r data presennol. Soniodd John fod elfen ddata'r rhaglenni yn gymhleth oherwydd nifer y partneriaid. Fodd bynnag, mae'n gyfle i osod safon newydd. Mewn llawer o achosion, mae byddin o wirfoddolwyr a dinasyddion sy'n barod i gymryd rhan mewn cipio data. Nid yw materion ymddiriedaeth yn unigryw i Natur am Byth, ond mae'n bwysig archwilio atebion posibl, er enghraifft gweithio gyda thirfeddianwyr a ffermwyr sy'n caru'r ffaith bod ganddynt y rhywogaethau prin hyn a'u dathlu fel ceidwaid. Gellir enghreifftio'r bobl hyn am eu rôl wrth reoli eu safleoedd fel y gall rhywogaethau ffynnu.

28. Trafododd y grŵp bwysigrwydd ymgysylltu cynnar, meithrin ymddiriedaeth, cydweithio a dysgu o astudiaethau achos penodol ar gyfer mentrau yn y dyfodol (e.e. y Cynllun Ffermio Cynaliadwy).

***Pwynt Gweithredu Medi 01: John Clark i rannu copi o gyflwyniad Natur am Byth.***

***Pwynt Gweithredu Medi 02: John Clark i weithio gydag aelodau'r WLMF fel cyfle i ddod â phobl at ei gilydd ac edrych ar gamau cadarnhaol dros natur yng Nghymru***.

## Eitem 4. Cyflwyniad: Rhaglen Tirweddau Dynodedig

29. Keith Davies, Cyfoeth Naturiol Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Tirweddau Dynodedig a'r cynnydd o ddynodi'r Parc Cenedlaethol newydd yn dilyn cyflwyniadau cychwynnol i'r WLMF ym mis Mawrth 2022 a mis Medi 2023.

30. Atgoffodd Keith y grŵp o’r prosiect sy'n asesu'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru. CNC yw’r awdurdod dynodi yng Nghymru, felly mae’n

gyfrifol am asesu’r achos dros Barc Cenedlaethol newydd. Mae'r amserlen ar gyfer y gwaith hwn o fewn tymor presennol y Senedd 2021-2026 (mae hon yn weithdrefn statudol).

31. Mae'r meini prawf dynodi yn cynnwys harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Y grymoedd ar gyfer newid yw:
    - Tueddiadau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol
    - Newid yn yr Hinsawdd ac Adferiad Natur
    - Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

32. Esboniodd Keith yr ardal chwilio (nid ffin yw hon) a'r camau sy'n gysylltiedig â'r broses. Mae CNC yn casglu tystiolaeth, yn asesu'r ardal, yn nodi rhinweddau arbennig, yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu ac yn edrych ar opsiynau rheoli.

33. Disgrifiodd Keith rai o'r heriau a'r pryderon a godwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu cychwynnol. Roedd rhai o'r themâu allweddol yn cynnwys tirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal, llonyddwch, bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd, twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith, yr angen am newid, rheoli, costau, cyllid a biwrocratiaeth, pobl leol a chymunedau a'r economi leol.

34. Darparwyd trosolwg o'r llinell amser - carreg filltir allweddol yw'r cyfnod ymgynghori sydd ar ddod yn hydref 2024. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd CNC yn cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ac os oes digon o dystiolaeth, yn cyflwyno Gorchymyn Dynodi. Yna bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yr argymhellion a/neu'r Gorchymyn Dynodi ac yn cadarnhau, gwrthod neu amrywio'r Gorchymyn.

35. Rhoddodd Keith drosolwg o'r Cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol Newydd yng Nghymru a dywedodd y bydd dogfennau cryno ar gael drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Cynigiodd Keith fynychu cyfarfod WLMF yn y dyfodol i drafod y camau nesaf.

***Pwynt Gweithredu Medi 03: Keith Davies, CNC i fynychu cyfarfod WLMF yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion ar gyfer Dynodi Parc Cenedlaethol newydd.***

36. Gofynnodd Elaine a yw Parciau Cenedlaethol wedi dyddio ac awgrymodd efallai y dylem fod yn edrych ar Gymru gyfan. Mae targedau plannu coed yng Nghymru yn ogystal â galw am bren felly gallai Parc Cenedlaethol arall fod yn rhwystr. Siawns y byddai'n well llunio strategaeth tir ar gyfer Cymru gyfan a fyddai'n ymgorffori pren, ffermio a rheoli tir ac yn gweithio mewn ffordd fwy cyfannol. Trafododd Keith ddilyniannu rhesymegol a soniodd am yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a chynllunio defnydd tir arbennig. Mae prosiectau penodol o fewn y cyd-destun ehangach.

37. Gofynnodd Hedd am yr ymgynghoriad ac a fydd sioeau teithiol i ffermwyr a'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses. Roedd Hedd yn ymwybodol o rai pryderon sydd gan ffermwyr. Dywedodd Keith bod sioeau teithiol helaeth wedi'u cynllunio ar draws yr ardal ac o fewn cymunedau penodol. Bydd digwyddiadau wyneb yn wyneb i ffermwyr a rheolwyr tir fynychu fel bod lleisiau lleol allweddol yn cael eu clywed.

38. Gofynnodd Rosie a yw datblygiadau tir ac ynni yn cyd-fynd â chyd-destun yr asesiad. Dywedodd Keith fod yr ardal yn ymuno â 3 o'r ardaloedd a amlinellir yng Nghymru'r Dyfodol sy'n addas ar gyfer ynni adnewyddadwy ac y gallai'r ffin orgyffwrdd â'r ardal

hon. Fe allai fod problemau yn ymwneud â gwrthdaro â pholisi oherwydd bod gan y statws cynllunio flaenoriaeth gyfartal o ddynodiad y Parc Cenedlaethol newydd - byddai angen ystyried hyn ymhellach.

39. Awgrymodd Tim ei fod yn sicr o ddigwydd, ac ni fydd yr ymgynghoriad yn newid y canlyniad a bydd y dynodiad newydd yn cael ei gymeradwyo. Mae'r broses hon eisoes wedi cymryd tair blynedd. Roedd Tim yn dymuno y byddai Bwrdd CNC yn defnyddio synnwyr cyffredin o ran y penderfyniadau ac yn ystyried eu staff - does dim arian nac adnoddau ar gyfer hyn. Atgoffodd Keith y grŵp nad oes modd penderfynu'r canlyniad ymlaen llaw, mae'r broses yn gofyn am dystiolaeth y mae'n rhaid ei chasglu a'i hystyried. Mae'n gynnig dymunol ar y cyfan, ond mae angen dadansoddi'r holl ffactorau yn ofalus. Mater i Lywodraeth Cymru yw cyllid. Mae CNC yn arwain y cyngor ac nid ar draul dynodiadau presennol. Atgoffodd Tim y grŵp nad aeth y cynnig ar gyfer Mynydd Cambria yn ei flaen gan na allai Cymru ei fforddio. Soniodd Sarah James am y dull ar y cyd ac awgrymodd nad yw'n rhy hwyr i gael sgwrs genedlaethol (e.e. drwy'r SFS). Mae angen i ffermwyr fod yn rhan o drafodaethau cynnar. Mae'r CLA yn cynnal holiadur i aelodau ar eu barn.

40. Trafododd y grŵp leoliad y parc, lleoliad cyfleoedd ynni adnewyddadwy a'r seilwaith sy'n ofynnol ar raddfa fawr.

41. Gofynnodd Sarah James a fyddai adolygiad yn cael ei gynnal ar reoli'r Parc Cenedlaethol. Doedd Keith ddim yn ymwybodol o adolygiad. Soniodd Rosie y gallai hyn fod yn gysylltiedig â thrafodaethau ynghylch i ba raddau y gallai fod yn well iddynt hunan-ariannu.

42. Soniodd Elan am bryderon aelodau FUW ynghylch biwrocratiaeth bellach, perthnasoedd gwael, materion ymddiriedaeth a heriau tebygol o amgylch seilwaith cyfredol (e.e., traffig ychwanegol, meysydd parcio newydd, toiledau ac ati) - ni all llawer o ardaloedd ymdopi â'r nifer bresennol o dwristiaid. Nid yw aelodau FUW yn erbyn twristiaid ond maent wedi codi'r angen am well addysg i'r rhai sy'n ymweld â chefn gwlad Cymru (e.e., cadw at y Cod Cefn Gwlad, mwy o achosion o gŵn yn poeni da byw ac ati). Holodd Elan a fydd yr SFS yn cyd-fynd ag uchelgeisiau eraill fel dynodi Parc Cenedlaethol newydd. Dywedodd Keith fod y rhain i gyd yn themâu cyffredin sydd wedi'u hamlygu drwy ymgysylltu blaenorol, mae angen i'r prosiect ddangos sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain, er enghraifft enghreifftiau o arfer gorau o fannau eraill yng Nghymru a deall a rheoli pwysau. Awgrymodd Huwel fod cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rhan fawr yn nifer yr ymwelwyr (e.e. Bro'r Sgydau). Mae angen rheoli'r gwrthdaro rhwng pobl a thirwedd yn sensitif. Soniodd Keith am yr egwyddor os yw'r ail elfen yn niweidio'r gyntaf, yna y cyntaf yw'r flaenoriaeth. Soniodd Keith am rai atebion posib fel cynlluniau rheoli. Awgrymodd Hedd y dylid rhoi pwyslais pwysig ar y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn ardal y Parc Cenedlaethol arfaethedig.

43. Roedd Dennis yn cofio cyfarfod a fynychodd lle roedd gwrthwynebiad 100% i'r cynigion dynodi. Roedd y prif bryderon ynghylch cyfyngiadau ychwanegol ar yr hyn y gallant / na allant ei wneud a mynediad. Soniodd Dennis fod ffermwyr yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol fel y mae, heb gyfyngiadau ychwanegol ar ganiatâd cynllunio.

44. Dywedodd Rhys fod ychydig fisoedd pwysig o'n blaenau ar gyfer y cynigion ac anogodd y grŵp i ymateb i'r ymgynghoriad a'i rannu pan gaiff ei lansio yn yr Hydref.

***Pwynt Gweithredu Medi 04: Keith Davies, CNC i rannu copi o'r cyflwyniad ar broses Dynodi'r Parc Cenedlaethol***.

## Eitem 5. Trafodaeth: Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

45. Roedd y grŵp ar ei hôl hi o ran amser; felly, tynnwyd yr eitem hon yn ôl o'r agenda.

## Eitem 6. Achos dros Newid CNC

46. Rhoddodd Ruth Jenkins, CNC ddiweddariad llafar ar Achos dros Newid CNC. Mae'r ymgynghoriad mewnol gydag Undebau Llafur yn cau ar 13 Medi 2024. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma - CNC: Achos dros Newid.

## Eitem 7. Diweddariadau CNC

47. Cyn y cyfarfod, dosbarthwyd Papur Diweddaru Rhwydwaith Rheoli Tir Cymru. Anogir aelodau i adolygu'r ddogfen ymlaen llaw a dod i'r cyfarfod gyda chwestiynau. Cydnabu Rhys fod llawer o amser yn mynd i mewn i gynhyrchu Papur Diweddaru WLMF a diolchodd i'r rhai sydd wedi cyfrannu.

48. Soniodd Bronwen y bydd Adolygiad Fforwm CNC yn cynnwys arolwg rhanddeiliaid i'w gwblhau gan aelodau. Mae'r arolwg yn y broses o gael ei gwblhau a bydd yn cael ei gyhoeddi gan ddefnyddio CitizenSpace. Bydd dolen breifat i'r arolwg yn cael ei rhannu gydag aelodau er mwyn iddynt allu ymgysylltu â'r broses.

49. Ni wnaed unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â diweddariadau ysgrifenedig CNC.

## Eitem 8. Diweddariadau gan UAC / NFU Cymru / CFfI Cymru / Confor / CLA / TFA / Llywodraeth Cymru

50. **FUW:** Dywedodd Elan fod FUW wedi bod yn cyfarfod ag ASau newydd yn ddiweddar. Roedd hi'n haf prysur gyda Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a sioeau sir amrywiol. Mae FUW hefyd yn cymryd rhan yn natblygiad yr SFS terfynol.

51. **NFU Cymru:** Dywedodd Hedd fod NFU Cymru hefyd wedi cael haf prysur gyda Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a sioeau sir amrywiol. Mae'n gyfnod heriol i ddatblygiad yr SFS, ond mae NFU Cymru yn cymryd rhan weithredol yn y grwpiau rhanddeiliaid. Gofynnodd Hedd a oedd diweddariad ar y sefyllfa ynghylch rhyddhau afancod yn Afon Dyfi?

***Pwynt Gweithredu Medi 05: Ruth Jenkins i gysylltu â chydweithwyr ynghylch rhyddhau afancod yn Afon Dyfi ac adborth i'r WLMF.***

Soniodd Hedd am Ardaloedd Draenio Mewnol (IDDs) ac bod y diffyg cynnal a chadw a charthu yn achosi problemau i aelodau NFU Cymru. Rhoddodd Huwel ddiweddariad byr a dywedodd fod y rhan hon o'r sefydliad yn cario swyddi gwag na ellir eu recriwtio ar hyn o bryd oherwydd yr Achos dros Newid. Fodd bynnag, rydym yn ymchwilio i eithriadau ar gyfer recriwtio. Awgrymodd Rosie y byddai gan y Pwyllgor Llifogydd ddiddordeb mewn clywed yr adborth hwn.

***Pwynt Gweithredu Medi 06: Huwel Manley, CNC i hysbysu'r Pwyllgor Llifogydd am yr adborth gan Hedd Pugh, NFU Cymru ynghylch effaith IDDs.***

Cynhelir Cynhadledd Ffermio Cynaliadwy NFU Cymru ar 12 Medi yn Rhaeadr.

52. **CFfI Cymru:** Soniodd Angharad Davies fod aelodau'r CFfI wedi bod yn brysur yn cystadlu dros yr haf. Roedd llawer ohonynt yn cystadlu neu'n mynychu Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CFfI Cymru ar y gweill a bydd Cadeirydd newydd yn cael ei benodi. Mae CFfI Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda FUW ac NFU Cymru, yn enwedig o ran yr SFS.

53. **Confor:** Soniodd Elaine fod Confor wedi cael amser llwyddiannus yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Roedd yr adran goedwigaeth yn brysur iawn gyda seminarau, sgyrsiau a chyfarfodydd. Dywedodd Elaine bod y rhifau o ran plannu yng Nghymru ymhell islaw’r targedau ac mae Confor wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i awgrymu atebion. Un o'r problemau yw dod o hyd i dir addas i'w blannu.

    Mae Confor hefyd wedi bod yn ymgysylltu â’r gwaith o ddatblygu'r SFS ac yn eistedd ar 3 phanel. Mae ymgynghoriad Strategaeth Diwydiant Pren Cymru ym mis Rhagfyr.

    Byddai Confor yn croesawu trafodaeth yn y dyfodol gyda CNC a Llywodraeth Cymru ar reoli gwiwerod llwyd a rheoli ceirw - ar hyn o bryd nid oes gennym y cyfleusterau i brosesu ceirw yn fasnachol yng Nghymru. Soniodd Elaine y byddai adolygiad ar EPS yn cael ei groesawu. Awgrymodd Huwel y byddai'n bwysig cynnwys BASC hefyd mewn trafodaethau ynghylch rheoli ceirw. Soniodd Tim am y gwahaniaethau yn Lloegr lle mae grantiau ar gael i helpu i reoli gwiwerod llwyd a cheirw.

    Soniodd Elaine bod pryder ynghylch ailstocio CNC - mae melinau'n dibynnu ar hyn. Os nad yw coed yn cael eu hailstocio, yna bydd yn cael sgil-effaith yn nes ymlaen yn y broses.

    Trafododd y grŵp bynciau posibl ar gyfer cyfarfod WLMF Rhagfyr gyda thema 'coed/coetir'. Trafododd Rhys a Ruth y cyfle posibl i gyfuno cyfarfod WLMF â chyfarfod y Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth (RAC). Awgrymwyd y gellid ystyried cyfarfod wyneb yn wyneb arall o ystyried y bydd y pwnc yn debygol o arwain at drafodaethau manwl.

***Pwynt Gweithredu Medi 07: Rhys Jones a Ruth Jenkins i drafod a chytuno ar ymagwedd tuag at gyfarfod WLMF ym mis Rhagfyr (e.e. cyfarfod ar y cyd â RAC Coedwigaeth).***

54. **CLA:** Soniodd Sarah Jones fod y CLA yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd Bord Gron ar gyfer Storio Carbon. Mae CLA wedi sefydlu 'Waterwise' i ymgysylltu â'u haelodau yn nalgylch Brynbuga - mae cynrychiolwyr CNC ar hyn gan gynnwys Pedair Afon LIFE. Mae cyfarfod a thaith gerdded ar fferm wedi’u cynllunio, ac maent yn sefydlu tasglu i edrych ar rwystrau, materion ac atebion.

    Mae CLA hefyd yn gweithio gydag aelodau ar y rheolau treth etifeddiaeth a threth tir newydd (e.e. tirfeddianwyr yn rhyddhau tir ar gyfer tai, coed ac ati).

55. **TFA Cymru:** Dywedodd Dennis Matheson fod TFA Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r SFS a sut y gall tenantiaid gael mynediad i'r cynllun.

Mae TFA wedi bod yn helpu i awgrymu newidiadau i'r camau gweithredu cyffredinol a fydd yn caniatáu i denantiaid gymryd rhan - mae'r gwaith hwn yn parhau.

Cododd Dennis y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a'r gwahaniaeth mewn dull gweithredu rhwng CNC a Taliadau Gwledig Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am y problemau. Soniodd Dennis am astudiaeth achos lle cytunodd Cyngor Sir Powys (CSP) i roi storfa slyri newydd i'w ffermwr tenant gyda chefnogaeth swyddogion CNC - roedd hyn yn gadarnhaol iawn. Fodd bynnag, mae bellach wedi arwain at adolygiad o'r ffermydd CSP ac mae dyfodol y 144 fferm yma bellach yn anhysbys (does dim olyniaeth gyda ffermydd CSP) ond mae cyfarfod yr wythnos nesaf. Roedd Huwel yn ymwybodol bod Tîm Rheoli Llygredd Amaethyddol CNC wedi cwrdd â rhai cynghorau ac Awdurdodau Lleol. Dywedodd Dennis nad yw'r cynghorau'n ailfuddsoddi arian i'r ffermydd hyn.

56. **Llywodraeth Cymru:** Nid oedd cynrychiolydd yn bresennol.

***Pwynt Gweithredu Medi 08: Rhys Jones a Ruth Jenkins i drafod presenoldeb Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd WLMF.***

## Eitem 9. Unrhyw fater arall

57. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 9 Rhagfyr 2024 a bydd thema coedwigaeth/coetir – mae Bronwen wrthi’n archwilio cyflwyniad posibl ar Goedwig Genedlaethol Cymru a thrafodaeth ar greu coetiroedd.

58. Atgoffodd Rhys y grŵp bod eu cyfranogiad yn y fforwm yn hanfodol bwysig ac y dylent gyflwyno eitemau agenda a phynciau trafod posibl.

59. Roedd y grŵp yn hapus gyda'r cyfarfod personol a thrafodwyd manteision bod mewn ystafell.

60. Ni chodwyd unrhyw faterion ychwanegol.

## Diwedd y cyfarfod